Trefniadau Trafnidiaeth Ysgolion Prif Ffrwd ar gyfer 2019-20

Mae disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11 yn cael eu hasesu'n awtomatig ar gyfer trafnidiaeth ysgolion prif ffrwd am ddim. Mae disgyblion oedran ysgol gynradd yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim os ydynt yn byw mwy na 2 filltir i ffwrdd o'u hysgol ddalgylch, neu'r un agosaf nesaf os yw un y dalgylch yn llawn. Mae disgyblion oedran ysgol uwchradd yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim os ydynt yn byw mwy na 3 filltir i ffwrdd o'u hysgol ddalgylch, neu'r un agosaf nesaf os yw un y dalgylch yn llawn.

Nid oes angen cwblhau na llofnodi unrhyw ffurflenni a chaiff llythyrau/pasiau/amserlenni eu hanfon yn uniongyrchol i gyfeiriadau cartref erbyn dydd Gwener 23 Awst 2019.

Dim ond disgyblion sydd wedi cofrestru'n hwyr, sydd wedi symud i gyfeiriad newydd neu a fydd yn dechrau cyrsiau addysg ôl-16 (Blwyddyn 12) ym mis Medi fydd yn gorfod cysylltu â'r Tîm Trafnidiaeth Ysgol (e-bost: schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk).

Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7

Mae'r holl ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 wedi'u hasesu a chaiff llythyr/pàs bws ei (h)anfon i gyfeiriad cartref y disgyblion cymwys erbyn dydd Gwener 23 Awst 2019, felly os oes unrhyw broblemau bydd gennym ddigon o amser i wneud newidiadau dros wyliau'r haf. Os nad ydych wedi derbyn eich pàs bws neu lythyr erbyn dydd Gwener 23 Awst 2019, cysylltwch â'r Tîm Trafnidiaeth Ysgol (e-bost: schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk).

Blwyddyn 1 i Flwyddyn 11

Bydd yr holl ddisgyblion sydd wedi cael trafnidiaeth ysgol am ddim eleni'n derbyn llythyr/pàs bws yn awtomatig a gaiff ei anfon i gyfeiriad y rhiant/gwarcheidwad (cysylltwch â ni os ydych wedi symud yn ddiweddar) ynghyd â chrynodeb o'r polisi, y cod ymddygiad teithio ac amserlen y llwybr. Os nad ydych wedi derbyn eich pàs bws/llythyr erbyn dydd Gwener 23 Awst 2019, cysylltwch â'r Tîm Trafnidiaeth Ysgol (e-bost: schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk).

Disgyblion Ôl-16 (Blwyddyn 12 i Flwyddyn 13)

Bydd angen i ddisgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 12 ac sydd am barhau gyda'u hastudiaethau o fis Medi 2019 ymlaen (yn eu hysgol ddalgylch neu yng Ngholeg Dewi Sant) roi gwybod i'r Tîm Trafnidiaeth Ysgol erbyn dydd Gwener 23 Awst 2019 fan bellaf er mwyn derbyn eu pàs ar gyfer dechrau mis Medi.

E-bostiwch schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk cyn gynted â phosibl gyda'r wybodaeth ganlynol:-

- Enw'r plentyn:
- Dyddiad geni:

- Cyfeiriad:
- Rhif cyswllt:
- Ysgol:
- Rhif y llwybr deithio: (os yw'n hysbys)

Plant Anghymwys:

Prynu pàs bws ar wasanaeth ysgol a gontractir Gall y disgyblion nad ydynt yn gymwys am drafnidiaeth ysgol am ddim ond sydd am brynu sedd sbâr ar fws ysgol a gontractir gwblhau ac anfon ffurflen gais o 22 Gorffennaf 2019 (bydd ffurflenni ar gael ar wefan y Cyngor). Cânt eu trin ar sail y cyntaf i'r felin (gellir e-bostio ffurflenni i schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk). Fodd bynnag, gan fod rhaid i ni ddyrannu seddi ar gyfer disgyblion ôl-16 a all benderfynu peidio â dod yn ôl i'r ysgol/coleg tan ar ôl diwrnod y canlyniadau ddiwedd mis Awst, ni allwn ddyrannu seddi i unrhyw brynwyr tan drydedd wythnos mis Medi, ar y cynharaf. Cost pàs fydd £300 a bydd rhaid talu hyn cyn i chi gael eich pàs.

Gwasanaethau talu ffioedd

Mae manylion am wasanaethau talu ffioedd ar gael ar y dudalen we Trafnidiaeth Ysgol. Y ffioedd yw £1 am daith unffordd, £2 am daith ddwyffordd a £300 am docyn tymor blynyddol (£100 y tymor). Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau bws hyn yn cael eu hadolygu a chaiff penderfyniad ei wneud ar ddechrau mis Medi o ran a fyddant yn parhau i gael eu hariannu gan y Cyngor ym mis Medi 2020.

Sylwer:

Mae'r disgyblion hynny sy'n gymwys am drafnidiaeth ysgol am ddim yn cytuno i gydymffurfio â pholisi trafnidiaeth Ysgolion Cyngor Bro Morgannwg a chod ymddygiad teithio Llywodraeth Cymru.

Tîm Trafnidiaeth Teithwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Yr Alpau
Gwenfô CF5 6AA
Rhif ffôn: 01446 700111 (Canolfan Gyswllt Un Fro)
E-bost: schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk